LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# Beibl i bawb o bobl y byd

**Brecwast Gweddi Seneddol**

**Gŵyl Ddewi 2018**

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Cof Cenedl

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn falch o allu cefnogi Brecwast Gweddi Seneddol cyntaf Cymru a rhannu ychydig eitemau gyda chi o'n casgliadau sy'n cynrychioli rhai penodau arwyddocaol yn hanes cyfoethog ein cenedl. Y Llyfrgell, sy'n elusen gofrestredig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yw un o sefydliadau diwylliannol mwyaf gwerthfawr Cymru, ac yn enwedig felly os mai eich prif ddiddordeb yw treftadaeth Gristnogol ein gwlad, gan fod y Llyfrgell gyda'i chasgliadau cenedlaethol cyffyrddadwy cyfoethog yn sefydliad anhepgor.



Beibl Malagasi

www.llgc.org.uk

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## 1. Mary Jones, ei Beiblau a dechreuadau Cymdeithas y Beibl

*Y Bibl Cyssegr-lan:*
*sef, Yr Hen Destament a'r Newydd (1799)*

Byddai stori'r Beibl Cymraeg yn anghyflawn pe baem yn peidio â chyfeirio at y Parchedig Thomas Charles y Bala a sefydlu'r Beibl Gymdeithas yn 1804, a ysbrydolwyd yn rhannol, gan hanes Mary Jones yn cerdded o Lanfihangel-y-pennant i'r Bala er mwyn prynu Beibl. Y Beibl a ddangosir heddiw yw 'Beibl Lydia Williams', sef un o dri Beibl a roddwyd i Mary Jones gan Thomas Charles. Fe roddodd hithau'r Beibl hwn i Lydia ei nith, a oedd yn byw gyda hi. Yn ei thro, rhoddodd Lydia'r Beibl i Lizzie Rowlands, née Jones, sef merch ifanc o'r Bala a arferai ddarllen y Beibl i Mary Jones a oedd erbyn hynny wedi mynd yn ddall. Ym 1880 fe roddodd Lizzie Rowlands ei Beibl i'r Dr Lewis Edwards, Prifathro Coleg y Bala, ac fe gyflwynodd yntau Feibl Mary Jones, a fu'n cael ei gadw yn y Coleg, i'r Beibl Gymdeithas. Mae'r copi hwnnw'n awr yn cael ei gadw yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt.



Beibl Lydia Williams

## 2. Y Genhadaeth Gymreig i Fadagascar

Union ddau gan mlynedd yn ôl fe gyrhaeddodd y cenhadwr Cymreig, David Jones (1797-1841) ynys Madagascar. Fe'i hanfonwyd yno gan Gymdeithas Genhadol Llundain. Yn dilyn llwyddiannau cynnar y genhadaeth, a briodolir yn bennaf i gydweithrediad ac ewyllys da'r Brenin Radama I, fe ataliwyd gwaith y genhadaeth yn sylweddol yn dilyn ei farwolaeth yn 1828. Bu'n gyfnod dryslyd iawn ac un a welodd un o weddwon y brenin, Ranavalona, yn gwrthwynebu pob dylanwad Gorllewinol ar yr ynys.

Yn y cyfamser, ynghyd â'i gyd-genhadwr Cymreig, David Griffiths (1792-1863), fe ddatblygodd Jones yr iaith Malagasi i fod yn iaith ysgrifenedig a hynny drwy ddyfeisio orgraff er mwyn cyfieithu'r Beibl, a gyhoeddwyd ganddynt yn 1830. Canlyniad hyn oedd rhoi i bobl y bedwaredd ynys fwyaf yn y byd hunaniaeth ffurfiol, er nas mabwysiadwyd Malagasi fel yr iaith genedlaethol hyd 1992.

Yn 1835, gwaharddwyd Cristnogaeth ym Madagascar a hynny trwy awdurdod brenhinol y Frenhines Ranavalona, a rhoddwyd gorchymyn pellach y byddai'r rhai hynny a feddai lyfrau Cristnogol yn cael eu dienyddio. Fe gladdwyd y copi hwn o Feibl 1830 yn ddiogel gan y cenhadon olaf cyn iddyn nhw adael yr ynys ym 1836, ac fe'i canfuwyd ar ôl ail-agor y maes cenhadol yn 1862.




Beibl Malagasi

### Ffarwél i Fadagascar

Llythyr gan David Jones, o Tananarivo, Madagascar, wedi'i ddyddio 1 Gorffennaf 1830 at ei frawd, Evan Jones o Lanina, Ceredigion. Mae'n sôn am farwolaeth y Brenin Radama, a chyflwr Madagascar. Fe adawodd yr ynys yn fuan ar ôl ysgrifennu hwn, ac ni fu iddo ddychwelyd i'r ynys wedi hynny.



Llythyr David Jones

### 3. Diwygiad 1859

Fe gychwynnodd Humphrey Jones (1832-95), o Dre'r-ddôl, Ceredigion gyfres o gyfarfodydd diwygiadol yn America yn 1856 gan barhau â'i waith yma yng Nghymru ar ôl iddo ddychwelyd i'r wlad ym Mehefin 1858. Ym mis Hydref y flwyddyn honno, fe glywodd y pregethwr Methodistaidd Calfinaidd, Dafydd Morgan (1814-83), Humphrey Jones yn pregethu nid nepell o Aberystwyth, a arweiniodd at ei dröedigaeth ysbrydol gan ei arfogi â bywyd newydd a gallu arbennig. Aeth y ddau ŵr ati i gynnal cyfres o gyfarfodydd ar y cyd yng Ngheredigion. Yr eitem gyntaf a welir, yn nyddiadur Dafydd Morgan, Ysbyty, wedi'i ddyddio 6 Hydref 1858, yw cyfeiriadau at gychwyniadau'r diwygiad. Ym 1859, fe gychwynnodd Dafydd Morgan bregethu tu hwnt i Geredigion, ac fe ledaenodd y diwygiad ar draws Cymru gyfan. Llythyr at Robert Joseph Davies, Cwrtmawr, oddi wrth John Matthews, iau, o Aberystwyth, wedi'i ddyddio 1 Mawrth 1859, yw'r ail eitem sy'n adrodd hanes y diwygiad yng Ngheredigion.

Dyddiadur Dafydd Morgan

cyferbyn: Beibl Evan Roberts


- dio tros ei thad yn neilldiol
ac thad yn y fenestr odi allan
yn ei Ahlywed ac yr aed yn wylo
y dagrau yn lide
29. aethum odi yno i Penybont erbyn
naw pregeth a deit 2 oneiwyr
ac odi yno i'r Babell pregeth a deit
dau o neiwyr
30. Aethum odi yno i Caslwchwr
erbyn naw pregeth a deit
ac i Gopafach erbyn dau pregeth
a deit dau onewyr
ac i Llanelly am saith pregeth

### 4. Beibl Evan Roberts

Rhwng 12 a 23 mlwydd oed bu'r Evan Roberts (1878-1951) ifanc yn gweithio ym mhyllau glo De Cymru, yn bennaf drwy gynorthwyo'i dad fel 'door-boy'. Wrth weithio yng Nghloddfa Broad Oak, Casllwchwr fe gadwodd y copi hwn o'r Beibl yn y pwll er mwyn ei ddarllen at ddiben personol ac er mwyn ei ddarllen i'w gyd-weithwyr yn ystod cyfnodau o seibiant. Yn Ionawr 1897 bu ffrwydrad yn y pwll gan ddifrodi'r Beibl hwn, a ganfuwyd wedi'i losgi'n rhannol, ond a gadwyd yn ddiogel wedi hynny gan y gŵr ifanc. Ymhen y rhawg, fe adawodd Evan y pyllau gan fynd i weithio fel prentis gof at ei ewyrth ym Mhontarddulais, a hynny cyn cychwyn astudio at gyfer y weinidogaeth yng Nghastellnewydd Emlyn yn 1904. Yn dilyn profiad ysgytwol mewn oedfa ym Mlaenannerch ym Medi 1904 fe ddaeth yn un o arweinyddion Diwygiad 1904-1905, sef un o ddigwyddiadau mwyaf dramatig hanes eglwysig yn y cyfnod modern yn nhermau'r effaith a gafodd ar y boblogaeth gynhenid, a bu iddo ymledu i nifer o wledydd eraill. Amcangyfrifir bod oddeutu 100,000 o eneidiau wedi'u hachub yn ystod y Diwygiad, a arweiniodd hefyd at sefydlu'r Eglwys Apostolaidd fyd-eang yn 1916, sef yr unig enwad byd-eang sydd a'i wreiddiau yn nhir Cymru.

### Tröedigaeth Evan Roberts

Dyddiadur y Parchedig Seth Joshua, wedi'i agor i ddangos y cofnod ar gyfer 29 Medi 1904, lle mae'n cyfeirio at dröedigaeth Evan Roberts: 'Grand meetings today at Blaenanerch and many cried for mercy. It was a remarkable thing to hear one young man' [h.y. Evan Roberts].



Llythyr John Matthews
John Mathews' letter
1859

